# CYNGOR YR UNDEB

# ATODIAD 2

## Adroddiadau'r Swyddogion

#NEWIDABER

Ers dechrau fy nghyfnod fel Swyddog Addysg, mae llawer o bethau wedi digwydd! Roedd Wythnos y Glas yn brysur, ac ynghyd â'r swyddogion eraill, traddodais amryw o gyflwyniadau ynglŷn â'r Undeb, a threuliais gryn lawer o amser yn cwrdd â'n Myfyrwyr Ôl-raddedig.

Ymysg pethau eraill, rwyf wedi sicrhau bod y llyfrgell ar agor 24/7 yn ystod y tymor. Dechreuodd hyn ar 21ain Medi, ac mae adborth wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Mae gen i berthynas waith ardderchog â'r adran Gwasanaethau Gwybodaeth, ac mae hyn yn sicr o dyfu yn ystod y flwyddyn. Hefyd gwnes gyflwyniad yng nghynhadledd flynyddol Dysgu wedi'i Wella drwy Dechnoleg y Brifysgol, ynglŷn â phwysigrwydd cyflyno gwaith a derbyn adborth ar-lein, a gafodd dderbyniad da iawn! Roedd y staff academaidd yn barod iawn i ymateb i fy marn a fy syniadau, ac rwyf wedi gweld cryn lawer o gynnydd yn y meysydd hyn eisoes.

Mae Siartr Gyflogaeth yr Ôl-raddedigion wedi cael ei chwblhau mewn cydweithrediad â'r Brifysgol. Mae hon yn sicrhau cyflog a chytundebau teg i fyfyrwyr ôl-raddedig, ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i hyn. Caiff y ddogfen ei lansio'r swyddogol cyn y Nadolig, ond mae'n cael ei gweithredu eisoes.

Rwyf wedi bod yn gwthio am bolisi Cipio Darlithoedd, ac rwyf yn falch o ddweud y bydd mewn lle ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2016, sy'n golygu bod rhaid recordio pob darlith mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a'u bod yn hygyrch drwy Blackboard.

Mae pob un o'n Cynrychiolwyr Academaidd (tua 300 ohonynt) wedi cael eu hethol a'u hyfforddi. Mae ein Cynrychiolwyr Cyfadran wedi cael eu cyfweld a'u hyfforddi yn ogystal, ac maent nawr yn barod i'ch cynrychioli chi i'ch adrannau a'r Brifysgol, a byddaf yn gweithio'n glòs â nhw gydol y flwyddyn ar nifer o wahanol ymgyrchoedd a phrosiectau. Maen nhw'n griw brwdfrydig dros ben!

Mae'r Brifysgol wedi lansio ymgyrch "Dwedwch Wrthym Nawr", ac rydw i wedi bod yn gweithio gyda nhw ar dîm y prosiect, er mwyn sicrhau bod hyn yn gweithio er budd ein myfyrwyr. Hefyd mewn cydweithrediad â'r Brifysgol, rwyf wedi cynnal grŵp ffocws i fyfyrwyr a chyfweliadau ynglŷn ag ailwampio cwestiynau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) yn y dyfodol, yn ogystal ag ymweld â nifer o adrannau a thrafod canlyniadau'r ACF ar gyfer y flwyddyn. Mae'n debygol y bydd adrannau wedi cael llond bol ohono i erbyn hyn, gan fy mod i wedi bod yn trefnu strwythurau Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn gyda nhw hefyd. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Brifysgol i gynnwys araith gan y Tîm Swyddogion ym mhob Seremoni Graddio, gan ddechrau eleni; gwych!

Rydw i wedi dechrau gweithio ar fy mhrosiect adborth ar adborth, sydd â'r nod o ganfod beth mae myfyrwyr yn ei feddwl am ansawdd yr adborth maent yn ei dderbyn, a ble mae'r arferion gorau ar draws adrannau'r Brifysgol. Rwyf ar hyn o bryd yn chwilio am adborth gan fyfyrwyr ynglŷn â'r sylwadau maent yn eu derbyn, felly ewch ati i gyfranogi os gwelwch yn dda! Rwyf hefyd yn ymchwilio ac yn adolygu'r system Diwtoriaid Personol, ac yn gweithio ar ymgyrch Wythnos Adolygu; rwyf hefyd yn ystyried y ddarpariaeth o fannau astudio ar draws y campws ac yn y dref.

Mae tîm *University Challenge* Aber wedi cael ei ddethol, a byddant yn mynd drwodd i'r clyweliadau cenedlaethol, oedd yn broses diddorol ac yn llawer iawn o hwyl hefyd! Serch hynny, nid yw bywyd Swyddog Addysg yn hwyl a sbri i gyd, gan y caiff y Brifysgol ei harchwilio gan yr ASA yn Ebrill. Rwyf felly wedi treulio llawer o fy amser yn paratoi ar gyfer hyn ac yn ysgrifennu'r Cyflwyniad Myfyrwyr, a byddaf yn gweithredu fel y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr ar gyfer cyfnod yr adolygiad.

Rwyf hefyd yn eistedd ar LAWER o bwyllgorau'r Brifysgol a'r Undeb, sydd wedi'u rhestru isod. Mae croeso i chi gysylltu â fi os oes gennych chi ddiddordeb yn unrhyw waith rwyf yn ei wneud ar y rhain!

Bwrdd Ymddiriedolwyr UMAber
Cyngor UMAber
Pwyllgor Gwaith UMAber
Bwrdd Academaidd y Brifysgol
Pwyllgor Datblygu a Chynllunio Academaidd
Pwyllgor Cynnydd Academaidd
Grŵp Defnyddwyr *Aspire*
Gweithgor CMA
Grŵp Gweithredu ar Gyflogadwyedd
Gweithgor Adolygu Addysg Uwch Cymru
Pwyllgor Gwobrau er Anrhydedd
Cyfarfod Gwasanaethau Gwybodaeth

Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu
Cyfarfodydd UCM a WISE Cymru
Pwyllgor Graddau Ymchwil
Gweithgorau Cynlluniau Llwyddiant Myfyrwyr (amryw o'r rhain)
Grŵp Dysgu wedi'i Wella drwy Dechnoleg
Tîm Prosiect Dwedwch Wrthym Nawr
Grŵp Arferion Academaidd Annerbyniol
Cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith y Brifysgol
Senedd y Brifysgol

... ac ambell un arall rwyf wedi ei anghofio'n fwy na thebyg!

Gallwch hefyd gysylltu â fi ar undeb.addysg@aber.ac.uk ar gyfer unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gwaith rwyf yn ei wneud.